Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Health and Care Research Wales

Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

In association with James Lind Alliance Priority Setting Partnerships

**Prosiect Blaenoriaethu Ymchwil:**

# Beth yw'r ffordd orau o ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy i helpu pobl hŷn i fyw bywydau hapusach a mwy bodlon?

## Cefndir y prosiect, Chwefror 2021

Ym mis Ebrill 2020 dechreuodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru weithio ar brosiect ar y cyd i nodi blaenoriaethau ymchwil yn ymwneud â gofal a chymorth i bobl hŷn, ar y pwnc "Beth yw'r ffordd orau o ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy orau i helpu pobl hŷn i fyw bywydau hapusach a mwy bodlon?"

Roedd datblygu'r blaenoriaethau hyn drwy ymgysylltu'n ystyrlon â phobl hŷn, eu gofalwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol yn hanfodol i'r prosiect. Yn gynnar, penderfynwyd cynllunio'r prosiect ynghylch dysgu o broses sefydledig Partneriaeth Pennu Blaenoriaethau y James Lind Alliance (JLA PSP), sydd wedi'i defnyddio mewn mwy na 100 o brosiectau pennu blaenoriaethau ledled y byd. Dewiswyd y model JLA PSP gan fod ganddo'r nod penodol o ddod â grwpiau cleifion, gofalwyr a chlinigwyr at ei gilydd ar sail gyfartal, ac mae ganddo ddulliau sydd wedi'u profi'n dda ac wedi'u dogfennu'n dda o sicrhau ymgysylltiad ystyrlon a thryloywder. Mae proses PSP JLA yn arwain at "10 Prif Flaenoriaeth" sy'n tynnu sylw at feysydd pwysig y mae cleifion, gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol wedi cytuno sy'n flaenoriaeth ar gyfer ymchwil.

In association with James Lind Alliance Priority Setting Partnerships

Cafodd ein prosiect ei gynnal Ar y Cyd â'r JLA. Er mwyn ceisio pennu blaenoriaethau ymchwil mewn tua 6 mis, ni wnaeth y prosiect ddilyn y broses Partneriaeth Pennu Blaenoriaethau (PSP) JLA lawn (12-18 mis), ond cadwodd at yr egwyddorion sylfaenol, gan gynnwys tegwch a thryloywder, a defnyddiodd lawer o'r technegau a dulliau, gan gynnwys rhai'n ymwneud â chyd-gynhyrchu (yr Arolwg Blaenoriaethu Interim, y Gweithdy a chyfarfodydd gydag ymchwilwyr).

Nid yw'r broses JLA PSP yn ceisio datblygu cwestiynau ymchwil penodol, ac felly gwnaethom benderfynu hefyd fynd â'r prosiect "y tu hwnt i'r 10 Prif Flaenoriaeth" a

gweithio gydag ymchwilwyr a chyllidwyr posibl i ddatblygu cwestiynau ymchwil hydrin a allai mynd ymlaen i gael eu comisiynu.

**Casglu syniadau:**




Dros yr haf cynhaliwyd dau arolwg gennym, gan estyn allan at bobl drwy 100 a mwy o sefydliadau i wahodd pobl i gymryd rhan os oeddent yn 65 oed a throsodd ac yn derbyn gofal a chymorth, yn ofalwyr pobl hŷn, a/neu'n ymarferwyr gofal cymdeithasol. Cymerwyd camau ychwanegol gennym i ymgysylltu â phobl sy'n tueddu i gael eu tangynrychioli wrth ddatblygu a chynhyrchu ymchwil, gan ganolbwyntio ar bobl sy'n debygol o gael profiadau gwahanol o ofal cymdeithasol, gan gynnwys cymunedau BAME a LGBTQi, pobl anabl a phobl hŷn sydd yn y carchar neu sy'n ddigartref.

Yn yr arolwg cyntaf, gofynnwyd i bobl roi eu syniadau i ni ar broblemau a bylchau yn ein dealltwriaeth o ofal a chymorth i bobl hŷn y gallai ymchwil helpu i'w datrys. Gofynnwyd "beth oedd yn gweithio" (a beth oedd ddim yn gweithio) wrth helpu pobl hŷn i fyw bywydau hapusach a mwy bodlon. Cawsom ymateb gwych o bob rhan o Gymru, yn cwmpasu pob agwedd ar ofal a chymorth. Ymatebodd 394 o bobl, gan gynnwys 80 o bobl hŷn, 60 o ofalwyr a 126 o ymarferwyr gofal cymdeithasol. Defnyddiwyd y syniadau a anfonwyd ganddynt i ddatblygu rhestr hir o 42 o feysydd ymchwil.

Yn yr ail arolwg, gofynnwyd i bobl ddewis eu hoff 10 o'r rhestr hir, ac o hynny fe wnaethom leihau'r rhestr i restr fer o 15 maes ymchwil.

**Datblygu'r 10 prif flaenoriaeth:**
Yng nghanol mis Medi cynhaliwyd gweithdy ar-lein gydag 20 o gyfranogwyr yn cynnwys pobl hŷn, gofalwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol o amrywiaeth o leoliadau a rolau swyddi. Cynhaliwyd y gweithdy dros Zoom gyda chymorth pedwar hwylusydd JLA. Bu'r cyfranogwyr yn ystyried y 15 maes ymchwil ar y rhestr fer a chynhyrchwyd rhestr o'u 10 pwysicaf yn nhrefn blaenoriaeth. Aeth y gweithdy'n dda iawn ar y cyfan a chawsom adborth da. Cafodd y cyfranogwyr brofiad cadarnhaol, gan deimlo eu bod yn gallu ymgysylltu â'r broses.

> “Dysgais lawer o'r profiad yn enwedig o ran sut roedd y grŵp amrywiol yn parchu safbwyntiau ei gilydd. Trafodaethau grŵp parchus iawn ... Cafwyd cyfraniad cadarnhaol gan holl aelodau'r grŵp gyda gwella Gofal Cymdeithasol wrth wraidd pob trafodaeth. Rhoddodd rywfaint o obaith a ffydd i mi ar gyfer y dyfodol..."
> **Cyfranogwr yn y gweithdy**

**Y Tu Hwnt i'r 10 Prif Flaenoriaeth:**
Trwy gydol yr hydref buom yn gweithio gydag ymchwilwyr i ystyried sut y gellid ateb y 10 prif faes blaenoriaeth hyn drwy waith ymchwil pellach. Gwnaethom hefyd ystyried a oedd angen mathau eraill o waith, megis synthesisau tystiolaeth newydd, gweithgarwch lledaenu gwybodaeth neu roi gwybodaeth ar waith, gwaith polisi, gwerthusiadau ac archwilio.

Cynhaliwyd tri chyfarfod, pob un ohonynt yn edrych ar 3 neu 4 o'r 10 pwnc blaenoriaeth ac yn cynnwys 5-7 o ymchwilwyr gofal cymdeithasol o bob rhan o'r DU gydag arbenigedd perthnasol. Cymerodd cynrychiolwyr o Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, CGC, y Sefydliad Ymchwil Iechyd Cenedlaethol (NIHR), y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) a pholisi Llywodraeth Cymru ran yn y cyfarfodydd. Yn bwysig hefyd, cymerodd ymarferwr ac aelod o'r cyhoedd a oedd wedi bod yn y gweithdy cynharach ran hefyd, fel y gallent sicrhau bod unrhyw ymchwil arfaethedig yn aros yn driw i'r 10 prif flaenoriaeth a oedd wedi'u datblygu.

> “Roedd yn ddefnyddiol cyflwyno syniadau ynglŷn â sut y gellid mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, yna trafod gwahanol syniadau a rhannu gwybodaeth am waith cysylltiedig/tebyg a allai fod yn digwydd.” **Ymchwilydd**

Y "**naratifau**" oedd y man cychwyn ar gyfer pob trafodaeth. Roedd y naratifau, a oedd yn deillio o wybodaeth yn yr arolwg a thrafodaethau yn y gweithdy, yn disgrifio'r materion a oedd yn destun pryder i bobl hŷn, gofalwyr ac ymarferwyr a'r hyn roeddent yn teimlo y gallai ymchwil helpu i'w ddatrys.

Ffocws y trafodaethau oedd datblygu ymchwil **y gellid ei gweithredu**: h.y. ymchwil a fydd yn helpu i wneud gwahaniaeth i arferion gofal cymdeithasol, yn hytrach nag ymchwil a oedd yn canolbwyntio ar ddisgrifio problemau pan mae'r broblem eisoes wedi'i nodi. Yr her a osodwyd i gyfranogwyr oedd nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen i symud ymlaen mewn ffordd ymarferol; datblygu cwestiynau sy'n bwysig ac, yn y pen draw, datblygu ymyriadau a/neu argymhellion a allai wella bywydau a llesiant pobl.

Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd ddatblygu cwestiynau a oedd yn ymgorffori mesurau **cost-effeithiolrwydd** yn yr ymchwil. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cydnabod nad yw comisiynwyr gofal cymdeithasol mewn Awdurdodau Lleol a mentrau gofal cymdeithasol yn debygol o weithredu newidiadau i systemau ac arferion gofal cymdeithasol oni bai bod ganddynt syniad clir o oblygiadau dulliau gweithredu newydd o ran adnoddau. Felly, mae sicrhau bod ymchwil yn darparu'r dystiolaeth hon ar oblygiadau o ran adnoddau yn helpu i wneud yr ymchwil yn haws i’w gweithredu.

Ar draws y tri chyfarfod, datblygwyd 28 o argymhellion ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â'r 10 prif flaenoriaeth ymchwil.

Ers hydref 2020 rydym wedi bod yn ymgysylltu ag NIHR, ESRC a chyllidwyr posibl eraill i archwilio pwy allai ariannu pa gwestiynau. Bydd gwaith i gael ymchwil yn ymwneud â'r 10 prif flaenoriaeth wedi'i chomisiynu yn parhau drwy gydol 2021.

Rydym hefyd wedi bod yn gwerthuso'r broses blaenoriaethu ymchwil, gan ysgrifennu prosiect mewnol,  a hyd yma rydym wedi canfod bod y broses newydd rydym yn ei phrofi wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau cyfraniad ystyrlon y rhai a fydd yn defnyddio'r ymchwil (ymarferwyr gofal cymdeithasol) a'r rhai y bydd yn effeithio arnynt (pobl hŷn a'u gofalwyr).

Bydd llwyddiant y prosiect yn ei gyfanrwydd yn cael ei werthuso ym mis Tachwedd 2021. Mae’r profiad hyd yma yn awgrymu bod y broses "Ar y Cyd â JLA" wedi llwyddo i ddatblygu blaenoriaethau drwy **ymgysylltiad ystyrlon** â'r cyhoedd ac ymarferwyr. Bu cannoedd o bobl hŷn, eu gofalwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cymryd rhan, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol eu bod yn teimlo bod eu syniadau wedi cael gwrandawiad.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â rheolwr y prosiect Emma Small